

Memoranda Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru ar y Bil Ffyniant Bro ac Adfywio

Chwefror 2023



1. Cefndir

1. Cyflwynwyd y Bil Ffyniant Bro ac Adfywio¹ (y Bil) yn Nhŷ'r Cyffredin ar 11 Mai 2022. Caiff ei noddi gan yr Adran Ffyniant Bro, Tai a Chymunedau.

2. Mae enw hir y Bil yn datgan mai dyma ddiben y Bil:

"make provision for the setting of levelling-up missions and reporting on progress in delivering them; about local democracy; about town and country planning; about Community Infrastructure Levy; about the imposition of Infrastructure Levy; about environmental outcome reports for certain consents and plans; about regeneration; about the compulsory purchase of land; about information and records relating to land, the environment or heritage; for the provision for pavement licences to be permanent; about governance of the Royal Institution of Chartered Surveyors; about vagrancy and begging; and for connected purposes."

3. Mae Llywodraeth y DU yn datgan yn ei Nodiadau Esboniadol mai amcan y Llywodraeth yw gwrthdroi gwahaniaethau daearyddol rhwng rhannau gwahanol o'r Deyrnas Unedig drwy ledaenu cyfleoedd yn fwy cyfartal.²

4. Ar adeg cytuno ar ein hadroddiad, 20 Chwefror 2023 oedd y dyddiad i'r Cyfnod Pwyllgor ddechrau yn Nhŷ'r Arglwyddi.

5. Mae cyfeiriadau at ddarpariaethau yn y Bil yn gyfeiriadau at y fersiwn o'r Bil fel y'i cyflwynwyd.

Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru

6. Mae Rheolau Sefydlog 29.1 a 29.2, yn darparu ei bod yn ofynnol gosod memorandwm cydsyniad deddfwriaethol pan fydd Bil perthnasol yn y DU yn gwneud darpariaeth o ran Cymru at unrhyw ddiben sydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd neu sy'n addasu ei chymhwysedd deddfwriaethol.

7. Mewn llythyr at y Llywydd ar 24 Mai 2022, datganodd Julie James AS, y Gweinidog Newid Hinsawdd (y Gweinidog) y canlynol:

¹ Y Bil Ffyniant Bro ac Adfywio, fel y'i cyflwynwyd (Bil 6)

² Y Bil Ffyniant Bro ac Adfywio, Nodiadau Esboniadol (Saesneg yn unig), Mai 2022, paragraff 1

"Mae'r Bil yn faith ac yn gymhleth ac mae'n cynnwys 338 o dudalennau, sy'n cynnwys 11 Rhan ac 17 o Atodlenni. Wedi dechrau dadansoddi'r Bil daw'n glir bod y Bil yn cyffwrdd â nifer o feysydd lle mae cymhwysedd wedi eu datganoli a gallai addasu swyddogaethau Gweinidogion Cymru mewn meysydd a gadwyd yn ôl. Fodd bynnag, oherwydd ymgynghoriad cyfyngedig iawn ymlaen llaw gan Lywodraeth y DU a chymhlethdod y Bil, nid yw wedi bod yn bosibl eto i ystyried yn llawn y canlyniadau ar ddatganoli gan yr hyn sy'n cael ei gynnig.

Rwy'n bwriadu gosod Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ac unrhyw ddatganiadau perthnasol eraill gerbron y Senedd cyn gynted ag y bydd gennym ddarlun clir o ganlyniadau datganoli'r ddeddfwriaeth arfaethedig, fodd bynnag, mae'n glir y bydd hyn y tu allan i'r terfyn amser arferol o bythefnos ar gyfer Rheol Sefydlog 29. Nid oes disgwyl i'r Bil symud drwy'r Senedd yn gyflym. Mae ail ddarlleniad Tŷ'r Cyffredin i'w gynnal ar 8 Mehefin, ac, os caiff ei basio, ni ddisgwylir i'r Bil gael Cydsyniad Brenhinol tan y gwanwyn yn 2023."³

- 8.** Ar 28 Medi 2022, gosododd y Gweinidog Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol (y Memorandwm cychwynnol) gerbron y Senedd mewn cysylltiad â'r Bil.⁴
- 9.** Cytunodd y Pwyllgor Busnes y dylai'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith, Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig a'r Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai gyflwyno adroddiad ar y Memorandwm cychwynnol erbyn 8 Rhagfyr 2022.⁵
- 10.** Ysgrifennodd y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai at y Gweinidog ar 1 Tachwedd 2022,⁶ yn gofyn am fwy o wybodaeth mewn dau faes. Cafodd ymateb ar 10 Tachwedd 2022.⁷
- 11.** Ar 2 Tachwedd 2022, gwnaethom ysgrifennu at y Gweinidog am y Memorandwm cychwynnol, yn cydnabod diffyg ymgysylltu Llywodraeth y DU ond yn datgan:

³ Llythyr gan y Gweinidog Newid Hinsawdd at y Llywydd, 24 Mai 2022

⁴ Llywodraeth Cymru, Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol, y Bil Ffyniant Bro ac Adfywio, Medi 2022

⁵ Y Pwyllgor Busnes, Amserlen i'w hystyried: Y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Ffyniant Bro ac Adfywio, Hydref 2022

⁶ Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai at y Gweinidog Newid Hinsawdd, 1 Tachwedd 2022

⁷ Llythyr gan y Gweinidog Newid Hinsawdd at Gadeirydd y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 10 Tachwedd 2022

*"Serch hynny, rydym yn pryderu, tua phedwar mis ar ôl cyflwyno'r Bil i Senedd y DU, bod cynnwys y Memorandwm a osodwyd gerbron y Senedd yn brin iawn o fanylion angenrheidiol nad ydym yn credu y byddai'n galluogi'r Senedd i lunio barn wybodus ar y mater o ran a ddylid rhoi cydsyniad ai peidio."*⁸

12. O ganlyniad, gwnaethom ofyn 20 o gwestiynau, yn ceisio eglurhad ar ystod o faterion ac yn awgrymu bod y Gweinidog yn mynd i'r afael â hwy mewn Memorandwm diwygiedig. Cawsom ymateb gan y Gweinidog ar 25 Tachwedd 2022,⁹ a oedd yn cynnwys yr ymatebion i'n cwestiynau a'r sylwadau a ganlyn ar ymgysylltu â Llywodraeth y DU:

"Rwyf innau hefyd yn rhannu eich rhwystredigaeth ynghylch diffyg ymgysylltu gan Lywodraeth y DU ar feysydd o fewn y Bil cyn iddo gael ei gyflwyno. Er bod ymgysylltu wedi gwella mae'n parhau'n siom bod meysydd yn y Bil nad oes gennym lawer o fanylion yn eu cylch a bod cymalau dalfan yn parhau i fodoli. Mae hyn wedi cymhlethu nid yn unig asesiad datganoli'r darpariaethau a'u heffaith ar Gymru, ond hefyd drafodaethau dros welliannau posibl. Rwy'n cydnabod pwysigrwydd rôl graffu'r Senedd yn y broses cydsyniad deddfwriaethol ac yn derbyn bod hyn, yn ei dro, yn cyfyngu ar allu'r pedwar pwyllgor cyfrifol i gynnal gwaith craffu ystyrllon ar yr LCM."

13. Ar 25 Tachwedd 2022, gosododd y Gweinidog Memorandwm diwygiedig (y Memorandwm diwygiedig) gerbron y Senedd.¹⁰ Wedi hynny, cytunodd y Pwyllgor Busnes ar derfyn amser diwygiedig ar gyfer cyflwyno adroddiad, sef 16 Chwefror 2023.¹¹

Darpariaethau y mae angen cydsyniad y Senedd ar eu cyfer

14. Mae paragraffau 9 i 43 o'r Memorandwm diwygiedig yn nodi'r "cymalau sy'n arbennig o berthnasol i faterion sydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd",¹² sef:

- Rhan 1 (Cenadaethau ffyniant bro): cymalau 1 – 6;

⁸ Llythyr at y Gweinidog Newid Hinsawdd, 2 Tachwedd 2022

⁹ Llythyr gan y Gweinidog Newid Hinsawdd, 25 Tachwedd 2022

¹⁰ Llywodraeth Cymru, Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Diwygiedig, y Bil Ffyniant Bro ac Adfywio, Tachwedd 2022

¹¹ Y Pwyllgor Busnes, Amserlen diwygiedig ar gyfer ystyried: Y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Ffyniant Bro ac Adfywio, Tachwedd 2022

¹² Y Memorandwm diwygiedig, paragraff 8

- Rhan 3 (Cynllunio):
 - Pennod 1 (Data cynllunio): cymalau 75 i 77 a 79 i 81;
 - Pennod 4 (Rhoi a gweithredu caniatâd cynllunio): cymal 96;
 - Pennod 6 (Darpariaeth arall): cymal 112;
- Rhan 5 (Adroddiadau am ganlyniadau amgylcheddol), cymalau 116-130;
- Rhan 10 (Amrywiol): cymalau 186 – 187;
- Rhan 11 (Cyffredinol): cymal 191.

15. Mae'r Memorandwm diwygiedig yn nodi meysydd o sylwedd sydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd y mae Llywodraeth y DU o'r farn bod angen cydsyniad y Senedd ar eu cyfer. Y rhain yw:

- Rhan 3 (Cynllunio):
 - Pennod 1 (Data cynllunio);
 - Pennod 6 (Darpariaeth arall); cymal 112;
- Rhan 5 (Adroddiadau am ganlyniadau amgylcheddol);
- Rhan 10 (Amrywiol), cymal 186.¹³

16. Yn y Nodiadau Esboniadol i'r Bil,¹⁴ mae Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn nodi bod angen cydsyniad ar gyfer Pennod 1 yn ei chyfanrwydd yn Rhan 3, ond nid yw Llywodraeth Cymru yn pennu cymal 78 fel darpariaeth y ceisir cydsyniad ar ei chyfer, gan fod y cymal, yn ei barn hi, yn gymwys i Loegr yn unig.¹⁵

17. Mae'r Memorandwm diwygiedig yn nodi mân feysydd neu feysydd canlyniadol sydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd y mae Llywodraeth y DU o'r farn bod angen cydsyniad y Senedd ar eu cyfer.¹⁶ Mae'r Memorandwm diwygiedig yn datgan y canlynol:

¹³ Y Memorandwm diwygiedig, paragraffau 57 i 58

¹⁴ Y Bil Ffyniant Bro ac Adfywio, Nodiadau Esboniadol (Saesneg yn unig), Mai 2022, paragraffau 68-78 ac Atodiad A - Rhychwant tiriogaethol a chymhwyso yn y Deyrnas Unedig

¹⁵ Llythyr gan y Gweinidog Newid Hinsawdd, 25 Tachwedd 2022, paragraff 4.1

¹⁶ Y Memorandwm diwygiedig, paragraffau 57 a 59

"Mae nifer o ddarpariaethau yn y Bil sy'n gymwys i Loegr ac sy'n cael effaith y tu allan i Loegr ac mae pob un ohonynt, ym marn Llywodraeth y DU, yn fân ddarpariaethau neu'n ddarpariaethau canlyniadol. Mae'r darpariaethau hyn yn diwygio testun y ddeddfwriaeth sy'n gymwys yng Nghymru, ond dim ond er mwyn diogelu sefyllfa gyfreithiol bresennol Cymru ac nid ydynt yn cael unrhyw effaith ymarferol. Dyma nhw:

a) Rhan 3 (Cynllunio), Pennod 2 (Cynlluniau Datblygu) (cymalau 82-84) a (Cynlluniau Lleol) (cymal 87) sy'n gymwys i Gymru a Lloegr

b) Rhan 3 (Cynllunio), Pennod 3 (Treftadaeth)

c) Rhan 3 (Cynllunio), Pennod 4 (Rhoi a Gweithredu Caniatâd Cynllunio), cymal 97 (Datblygiad y Goron)

d) Rhan 3 (Cynllunio), Pennod 4 (Rhoi a Gweithredu Caniatâd Cynllunio), cymal 100 (Hysbysiadau Cwblhau)

e) Rhan 3 (Cynllunio), Pennod 5 (Gorfodi Rheolaethau Cynllunio)

f) Rhan 4 (Ardoll Seilwaith) sy'n gymwys i Gymru a Lloegr

g) Rhan 6 (Corfforaethau Datblygu) sy'n gymwys i Gymru a Lloegr."¹⁷

18. Mae Llywodraeth y DU hefyd o'r farn nad yw Rhan 1 (Cenadaethau ffyniant bro) yn ymwneud â phroses cydsyniad deddfwriaethol y Senedd.

Safbwynt Llywodraeth Cymru

Rhan 1 o'r Bil

19. Mae Llywodraeth Cymru o'r farn nad yw diben y darpariaethau yn Rhan 1 (Cenadaethau ffyniant bro) yn ymwneud â materion a gedwir yn ôl o dan *Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006* (Deddf 2006).¹⁸ Mae'r Gweinidog yn datgan y canlynol yn y Memorandwm diwygiedig:

"Byddai'r Bil hwn, pe bai'n cael ei basio fel y cafodd ei gyflwyno, yn ei gwneud yn ofynnol ar i Lywodraethau'r DU yn y dyfodol greu cenhadaeth fwy

¹⁷ Y Memorandwm diwygiedig, paragraff 59. Gweler hefyd y Bil Ffyniant Bro ac Adfywio, Nodiadau Esboniadol (Saesneg yn unig), Mai 2022, paragraff 71 a pharagraff 1538 yn Atodiad A - Rhychwant tiriogaethol a chymhwyso yn y Deyrnas Unedig

¹⁸ Y Memorandwm diwygiedig, paragraff 49

hirdymor ar draws ystod eang o faterion datganoledig, a gallai'r camau i'w gwireddu amharu mewn ffordd ymarferol ar amcanion polisi Llywodraeth Cymru.

Ein barn ni yw y gallai'r Senedd basio darpariaethau cyfatebol i'r rhai a geir yn Rhan 1 a gosod yr un rhwymedigaethau yn union ar Weinidogion Cymru i nodi sut y maent yn bwriadu "lleihau gwahaniaethau daearyddol" o ran cyfleoedd economaidd, cymdeithasol neu eraill ledled Cymru; gyda chefnogaeth yr un rhwymedigaethau adrodd, craffu, adolygu etc. yn union fel y'u nodir yn Rhan 1 o'r Bil. Felly, rydym o'r farn y byddai angen cydsyniad y Senedd ar gyfer Rhan 1 o'r Bil.

Y rheswm am hyn yw am nad yw'r nod o 'ffyniant bro' a lleihau anghyfartaledd daearyddol yn y DU yn fater sydd wedi'i ddargadw. Er na fyddai Gweinidogion Cymru yn cyflwyno deddfwriaeth mewn perthynas â Lloegr, byddai gan y Senedd gymhwysedd deddfwriaethol i ddeddfu er mwyn sicrhau'r un canlyniad o "ffyniant bro" i Gymru."¹⁹

20. Yn ogystal, mae'r Gweinidog yn nodi bod *Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015* eisoes yn darparu ar gyfer rhai o'r darpariaethau yng nghymalau 1 i 6 o'r Bil, gan gynnwys ar gyfer adroddiadau, dangosyddion a cherrig milltir blynyddol a gosod amcanion i lunio'r darparu.²⁰ Daw'r Gweinidog i'r casgliad a ganlyn:

"Nid mater i Weinidogion Llywodraeth y DU yw gosod targedau ar gyfer y materion hyn yng Nghymru, nac ychwaith adrodd ar gyflawni'r rhain i Senedd y DU. Ni fyddwn i'n argymhell i'r Senedd roi ei chydsyniad i'r darpariaethau hyn ac ni all gefnogi Rhan 1 o'r Bil."²¹

21. Gwnaethom ofyn i'r Gweinidog roi rhagor o wybodaeth ynglŷn â'r rheswm dros y gwahaniaeth ym marn Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU ynghylch yr angen am gydsyniad ar gyfer y darpariaethau hyn. Dywedodd y Gweinidog y canlynol wrthym:

"Mae Llywodraeth y DU o'r farn nad oes angen cydsyniad deddfwriaethol Senedd Cymru drwy Gynnig Cydsyniad Deddfwriaethol ar Ran 1 o'r Mesur. Dywed Llywodraeth y DU nad yw Rhan 1 yn addasu cymhwysedd

¹⁹ Y Memorandwm diwygiedig, paragraffau 46-48

²⁰ Y Memorandwm diwygiedig, paragraff 50

²¹ Y Memorandwm diwygiedig, paragraff 51

gweithredol Gweinidogion Cymru na chymhwysedd deddfwriaethol y Senedd, ond nad ydynt yn mynd i'r afael ag a yw Rhan 1 yn gwneud darpariaethau 'at unrhyw ddiben o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd' ai peidio. Mae Llywodraeth y DU o'r farn y gall Senedd y DU ddeddfu i osod dyletswyddau ar Weinidogion Llywodraeth y DU i bennu ymgyrchoedd ar gyfer y DU gyfan.

*Mae swyddogion Llywodraeth Cymru wedi cyfarfod â swyddogion o'r Adran Ffyniant Bro, Tai a Chymunedau, a bydd yn parhau â'r ymgysylltu hwn wrth i'r Bil fynd rhagddo."*²²

Rhannau 3 a 5 o'r Bil: darpariaethau cyffredinol

22. O ran barn Llywodraeth Cymru am y darpariaethau cynllunio yn y Bil, mae'r Gweinidog yn datgan y canlynol yn y Memorandwm diwygiedig:

"Mae gan ddau faes, sef data cynllunio (cymalau 75-77 a 79-81) ac adroddiadau ar ganlyniadau amgylcheddol (cymalau 116 – 130), fuddion posibl i Gymru, ond mae'r ffordd y maent wedi'u drafftio ar hyn o bryd yn golygu na ellir gwireddu'r buddion hyn. O ran y buddion, mae'r system asesu amgylcheddol bresennol yn gymhleth ar draws sectorau a meysydd datganoledig. Gwelaf felly fuddion posibl i system well o adrodd ar ganlyniadau amgylcheddol. Byddai system newydd yn osgoi gwrthddweud ac ansicrwydd yn y gyfraith ac yn golygu bod modd creu llwybrau cydsynio llyfn ar gyfer cynlluniau traws-awdurdodaethol. Nid oes modd gwireddu'r buddion posibl gan nad wyf yn derbyn y darpariaethau presennol o ystyried y ffordd y maent yn gymwys o ran Cymru a'n bod yn colli ein gallu i wneud rheoliadau ar gyfer Cymru yn y maes hwn. Mae'r sefyllfa hon yn codi am fod gan yr Ysgrifennydd Gwladol y pŵer i wneud darpariaeth ynghylch adroddiadau canlyniadau amgylcheddol mewn perthynas â'r DU gyfan, ac mae cymal 130(2)²³ yn hepgor adran 71A o'r Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref sef pŵer gweithredol presennol Gweinidogion Cymru i wneud darpariaeth mewn perthynas ag ystyried effeithiau amgylcheddol tebygol datblygiadau arfaethedig. Byddai hyn yn dileu'r pŵer presennol i wneud darpariaeth yn y maes hwn.

²² Llythyr gan y Gweinidog Newid Hinsawdd, 25 Tachwedd, paragraffau 1.6 ac 1.7

²³ Cymal 128(2) fel y'i cyflwynwyd

*Mae buddion hefyd i ddyluniad gwasanaeth digidol ym maes cynllunio, gan wneud y system yn haws i'w defnyddio, galluogi datblygwyr i weithio'n fwy effeithlon ar draws gwahanol awdurdodau a'i gwneud hi'n haws i'r cyhoedd gymharu data ar draws ardaloedd awdurdodau gwahanol. Byddai hefyd yn hwyluso twf a chystadleuaeth yn y farchnad meddalwedd data cynllunio drwy greu safon gyffredin y byddai cyflenwyr yn gweithio iddi. Unwaith eto, nid yw'r ffordd y mae'r pwerau ar ddata cynllunio wedi'u drafftio (cymalau 75-77 a 79-81) ar hyn o bryd yn cyd-fynd â'n dyhead i ddeddfu dros Gymru. Byddai'r darpariaethau presennol yn golygu y byddai'r Ysgrifennydd Gwladol yn deddfu dros Gymru ambell waith ac ni ddarperir unrhyw bwerau i Weinidogion Cymru wneud darpariaeth i reoleiddio'r modd y mae awdurdodau cynllunio Cymru yn prosesu data cynllunio o dan amgylchiadau eraill."*²⁴

23. Gwnaethom ofyn i'r Gweinidog am yr ymadrodd "nid yw'r ffordd y mae'r pwerau ar ddata cynllunio wedi'u drafftio (cymalau 75-77 a 79-81) ar hyn o bryd yn cyd-fynd â'n dyhead i ddeddfu dros Gymru"²⁵ ac, yn benodol, ym mha ffordd y mae gwaith drafftio presennol y Bil yn cael yr effaith hon. Ymatebodd y Gweinidog:

*"Mae'r drafftio yn y Bil fel y'i cyflwynwyd ar gyfer y darpariaethau data cynllunio ym Mhennod 1 o Ran 3 yn galluogi'r Ysgrifennydd Gwladol i wneud rheoliadau mewn perthynas â gofynion data cynllunio ar gyfer adroddiadau canlyniadau amgylcheddol. Yn unol â'n hegwyddorion ar gyfer cydsynio i Ffiliau'r DU, rwyf o'r farn y dylai Gweinidogion Cymru gael pwerau cyfatebol i wneud rheoliadau ynglŷn ag adroddiadau canlyniadau amgylcheddol ar gyfer cynlluniau a phrosiectau datganoledig, a byddai angen pwerau tebyg mewn perthynas â data cynllunio yn sgil hynny. Nid yw'r Bil, fel y'i cyflwynwyd, yn rhoi'r pwerau hynny i Weinidogion Cymru."*²⁶

24. At hynny, gwnaethom ofyn i'r Gweinidog roi rhagor o fanylion am y pwerau newydd a ddarperir i'r Ysgrifennydd Gwladol gan Bennod 1 o Ran 3 a chymal 112 a chadarnhau pa effaith y byddai'r pwerau hyn yn ei chael yng Nghymru, gan gynnwys unrhyw effaith ar gymhwysedd deddfwriaethol y Senedd a chymhwysedd gweithredol Gweinidogion Cymru. Wrth ymateb, dywedodd y Gweinidog y canlynol:

²⁴ Y Memorandwm diwygiedig, paragraffau 62-63

²⁵ Y Memorandwm diwygiedig, paragraff 63 (Y Memorandwm cychwynol, paragraff 59)

²⁶ Llythyr gan y Gweinidog Newid Hinsawdd, 25 Tachwedd, paragraff 8.1

"Bwriad y darpariaethau data cynllunio ym Mhennod 1 o Ran 3 o'r Bil yw gosod safonau data cymeradwy fel bod modd cymharu data a gedwir gan awdurdodau cynllunio perthnasol yn uniongyrchol. Byddai hyn yn galluogi datblygwyr i weithio'n fwy effeithlon ar draws gwahanol awdurdodau ac, yn ei gwneud hi'n haws i'r cyhoedd gymharu data ar draws gwahanol feysydd yr awdurdod. Byddai hefyd yn hwyluso twf a chystadleuaeth yn y farchnad meddalwedd data cynllunio drwy greu safon gyffredin y byddai cyflenwyr yn gweithio iddo, gan alluogi ymdrin â materion traws-ffiniau yn fwy effeithlon.

Mae'r mwyafrif helaeth o 'awdurdodau cynllunio perthnasol', fel y'u diffinnir yng nghymal 81 o'r Bil, yn cynnwys cyrff sy'n gweithredu yn Lloegr, neu mewn meysydd heb eu datganoli. Yr unig faes o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd yr effeithir arno gan unrhyw reoliadau data cynllunio fydd mewn cysylltiad ag unrhyw Reoliadau Adroddiad Canlyniadau Amgylcheddol a wneir o dan Ran 5 o'r Bil. Fel y cafodd ei ddrafftio yn y Bil fel y'i cyflwynwyd, yr Ysgrifennydd Gwladol fyddai'n gwneud y cyfryw Reoliadau Adroddiadau Canlyniadau Amgylcheddol ("Rheoliadau EOR"), fodd bynnag, mae trafodaethau'n parhau o ran bod gan Weinidogion Cymru bwerau cyfatebol mewn meysydd sydd wedi'u datganoli. Byddwn yn sicrhau bod gweithrediad y cymalau hyn sy'n ymwneud â data cynllunio yn cael eu hystyried yn y trafodaethau o ran Rhan 5. Fel y'i drafftwyd yn y Bil fel y cyflwynwyd mae'r darpariaethau hyn o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd i'r graddau y maent yn ymdrin â materion o dan adroddiadau Canlyniadau Amgylcheddol. Does dim effaith ar gymhwysedd deddfwriaethol y Senedd a dim effaith ar gymhwysedd gweithredol Gweinidogion Cymru. (...)

Mae Cymal 114 (Cymal 112 yn flaenorol) (rheoliadau a gorchmynion o dan y Deddfau Cynllunio) yn welliant eglurhaol, sy'n darparu pŵer mynegi i wneud darpariaeth ategol yn hytrach na gorfod dibynnu ar bwerau ymhlyg. Does dim newid sylweddol felly. Mae'r darpariaethau'n effeithio ar gymhwysedd gweithredol Gweinidogion Cymru i wneud rheoliadau a gorchmynion o dan Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990, Deddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990 a Deddf Cynllunio (Sylweddau Peryglus) 1990. Ond fel y nodwyd does dim newid i swyddogaethau Gweinidogion Cymru."²⁷

²⁷ Llythyr gan y Gweinidog Newid Hinsawdd, 25 Tachwedd, paragraffau 6.1-6.2 a 6.4

25. Gwnaethom ofyn i'r Gweinidog ofyn am gadarnhad gan Lywodraeth y DU ynghylch sut y bydd y darpariaethau cynllunio yn gweithio'n ymarferol, i gynnwys darparu dadansoddiad o'r cymalau mewn perthynas â chynllunio ac esbonio sut y bydd darpariaethau'r Bil yn effeithio ar awdurdodau Cymru mewn termau real. Wrth ymateb, dywedodd y Gweinidog y canlynol:

"Mae'r darpariaethau ym Mhennod 1 o Ran 3 o'r Bil fel y'u cyflwynwyd yn gymwys i Loegr yn bennaf ac nid ydynt ond yn gymwys i Gymru o dan ddau o amgylchiadau cyfyngedig. Yn gyntaf, mewn perthynas â gweithredu gan yr Ysgrifennydd Gwladol mewn meysydd nad ydynt wedi'u datganoli, er enghraifft Prosiectau Seilwaith Strategol Cenedlaethol (NSIP). Yn ail, mewn perthynas â swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol o dan Ran 5 o'r Bil (Adroddiadau ar Ganlyniadau Amgylcheddol).

Mae'r darpariaethau yn Rhan 5 yn cael eu trafod ar hyn o bryd gyda Llywodraeth y DU. O'r herwydd, ni allwn gadarnhau pwy, yng Nghymru, y gellid ei ystyried yn 'awdurdod cynllunio perthnasol' at ddibenion y Bennod hon, gan y bydd hyn yn dibynnu ar ganlyniad y trafodaethau hynny.

Yn yr un modd, mae'n anodd ar hyn o bryd amlinellu sut y bydd y darpariaethau'n gweithio'n ymarferol. Mae hyn yn ddibynnol ar y math o reoleiddio y mae Llywodraeth y DU yn bwriadu ei gyflwyno, trwy welliant wedi'i gyflwyno, ac nid oes gennym unrhyw fanylion ar hyn o bryd."²⁸

26. O ran Rhan 5 o'r Bil, mae'r Gweinidog yn datgan y canlynol yn y Memorandwm diwygiedig:

"Mae Rhan 5 o'r Bil yn disodli system asesu amgylcheddol yr UE gyda fframwaith newydd ar gyfer Adroddiadau am Ganlyniadau Amgylcheddol. Mae'r deddfwriaeth asesu amgylcheddol bresennol yn cwmpasu ystod eang o faterion pwnc y mae deddfwriaeth amgylcheddol bresennol yn cyffwrdd â hwy, gan gynnwys cynllunio, trafnidiaeth, dŵr, amaethyddiaeth, draenio tir etc. Mewn sawl un o'r meysydd hyn mae materion datganoledig a materion nad ydynt wedi'u datganoli. Er enghraifft, mae mater a gedwir yn ôl rhif 184 o Atodlen 7A i Ddeddf Llywodraeth Cymru (cynllunio), er y gellid gwneud darpariaeth mewn perthynas â materion cynllunio a phrosiectau seilwaith eraill sy'n disgyn islaw'r trothwyon ar gyfer prosiectau seilwaith o bwys cenedlaethol (NSIP). Ymhlith y materion perthnasol eraill a gedwir yn ôl y

²⁸ Llythyr gan y Gweinidog Newid Hinsawdd, 25 Tachwedd, paragraffau 12.1-12.3

*mae mater 97 (olew a nwy) a mater 99 (ynni niwclear). Er gwaethaf materion perthnasol a gedwir yn ôl gellid parhau i wneud darpariaeth arwyddocaol mewn meysydd datganoledig gan gynnwys cynllunio, trafnidiaeth, dŵr, amaethyddiaeth, draenio tir ac eraill. Er bod rhai meysydd sy'n dod o dan y cymalau arfaethedig yn feysydd a gedwir yn ôl, mae Llywodraeth Cymru o'r farn y gellid cynnwys yr un fframwaith i raddau helaeth ar gyfer adroddiadau ar ganlyniadau amgylcheddol mewn Deddf gan y Senedd, ar gyfer y meysydd pwnc hynny sydd o fewn cymhwysedd datganoledig."*²⁹

27. Cafodd paragraff 53 o'r Memorandwm diwygiedig sylw hefyd yn llythyr y Gweinidog ar 25 Tachwedd 2022 fel rhan o'i hymateb i gwestiwn am Ran 5 o'r Bil. Yn yr ymateb hwnnw, cyfeiriodd y Gweinidog at y darpariaethau a ganlyn o fewn Rhan 5 fel rhai sy'n ymwneud â materion datganoledig:

*"Mae'r darpariaethau y gellid eu cynnwys yn y Rheoliadau EOR yn cwmpasu ystod eang o feysydd, o ran diffinio 'cydsyniadau perthnasol' a 'chynlluniau perthnasol'. Mae enghreifftiau o reoliadau presennol yn ymwneud ag asesiadau effaith amgylcheddol sy'n berthnasol yng Nghymru'n unig yn cynnwys Rheoliadau Amaethyddiaeth (e.e., Rheoliadau Asesu Effaith Amgylcheddol (Amaethyddiaeth) (Cymru) 2017) a chynllunio (e.e., Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Asesiad Effaith Amgylcheddol) (Cymru) 2017). Rhestrir enghreifftiau eraill o'r darpariaethau presennol yng nghymal 130 o'r Bil fel "deddfwriaeth bresennol i ddiogelu'r amgylchedd". Byddwn yn gweithio gyda Llywodraeth y DU i sicrhau bod yr holl ddeddfwriaeth berthnasol i Gymru yn unig hefyd yn cael ei chynnwys."*³⁰

28. Gwnaethom ofyn i'r Gweinidog esbonio'r rhesymeg y tu ôl i'w datganiad bod "gan ddau faes, sef data cynllunio ... ac adroddiadau ar ganlyniadau amgylcheddol ..., fuddion posibl i Gymru, ond mae'r ffordd y maent wedi'u drafftio ar hyn o bryd yn golygu na ellir gwireddu'r buddion hyn."³¹ Ymatebodd y Gweinidog drwy ddweud y canlynol:

"O ran data cynllunio, fel yr eglurir ym mharagraff 6.1 uchod, byddai safonau data cyffredin yn galluogi datblygwyr i weithio'n fwy effeithlon ar draws gwahanol awdurdodau ac, ei gwneud hi'n haws i'r cyhoedd gymharu data ar draws gwahanol ardaloedd awdurdod. Byddai hefyd yn hwyluso twf a

²⁹ Y Memorandwm diwygiedig, paragraff 53

³⁰ Llythyr gan y Gweinidog Newid Hinsawdd, 25 Tachwedd, paragraff 13.1

³¹ Y Memorandwm diwygiedig, paragraff 62 (Y Memorandwm cychwynnol, paragraff 58)

chystadleuaeth yn y farchnad meddalwedd data cynllunio drwy greu safon gyffredin y byddai cyflenwyr yn gweithio iddo.

Mae diddymu Deddf Cymunedau Ewropeaidd 1972 yn golygu nad oes gan Weinidogion Cymru bwerau gwneud rheoliadau mwyach mewn cysylltiad ag asesiad amgylcheddol strategol ac asesiad effaith amgylcheddol. Yr unig eithriad i hyn yw adran 71A o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 y byddai'r Bil hwn yn ei ddiddymu. Felly, ni allwn wella gweithrediad y cyfundrefnau hyn, er enghraifft, mewn perthynas â chyfathrebu electronig, na'r mathau o brosiectau a ddylai fod yn destun asesu.

Nid yw'r drafftio yn y Bil fel y'i cyflwynwyd ar gyfer y darpariaethau data cynllunio a'r adroddiadau canlyniadau amgylcheddol yn rhoi pwerau gwneud rheoliadau i Weinidog Cymru. Felly, ni fyddwn yn gallu gwneud unrhyw newidiadau i wella sut mae'r darpariaethau'n gweithio a byddai risg o hyd bod yr Ysgrifennydd Gwladol yn gwneud rheoliadau sy'n effeithio ar Gymru sy'n tansellio'r dull presennol yn y meysydd hyn, sydd wedi'u teilwra'n benodol i amgylchiadau ac anghenion Cymru."³²

29. Dywedodd y Gweinidog wrthym fod trafodaethau wedi'u cynnal rhwng swyddogion yn Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU gyda'r bwriad o wireddu'r buddion posibl.³³

Rhannau 3 a 5 o'r Bil: pwerau dirprwyedig

30. Mae cymalau 80 a 121 o'r Bil yn datgan na chaiff yr Ysgrifennydd Gwladol ond wneud rheoliadau data cynllunio neu reoliadau adroddiadau canlyniadau amgylcheddol sy'n cynnwys darpariaeth o fewn cymhwysedd datganoledig Cymru (fel y'i diffinnir yng nghymalau 80(4) a 121(4) yn y drefn honno) yn dilyn ymgynghori â Gweinidogion Cymru.

31. Yn ei llythyr ar 25 Tachwedd 2022, mae'r Gweinidog yn datgan y canlynol:

"Mae trafodaethau rhwng swyddogion yn archwilio'r posibilrwydd o bwerau cyfatebol i Weinidogion Cymru wneud Rheoliadau EOR yn gyffredinol ar gyfer cynlluniau datganoledig a phrosiectau o'r man cychwyn y mae'r Bil fel y'i cyflwynwyd yn annerbyniol mewn perthynas â'r Ysgrifennydd Gwladol yn gallu gwneud rheoliadau mewn meysydd datganoledig. Nid yw trafodaeth ar gymalau amgen posibl ar gyfer cymalau 80 ac 123 (121 cyn hynny) i oresgyn

³² Llythyr gan y Gweinidog Newid Hinsawdd, 25 Tachwedd, paragraffau 7.1-7.3

³³ Llythyr gan y Gweinidog Newid Hinsawdd, 25 Tachwedd, paragraff 14.1

*y gwrthwynebiadau hyn wedi digwydd. Rwy'n aros i weld unrhyw gymalau arfaethedig yn eu lle sy'n adlewyrchu cymhwysedd datganoledig Cymru yn well. Oni bai a hyd nes y cynhyrchir cymalau newydd o'r fath, mae fy argymhelliad yn parhau y dylid atal caniatâd deddfwriaethol i'r darpariaethau ar reoliadau data cynllunio ac adroddiadau canlyniadau amgylcheddol."*³⁴

32. Mae cymal 129 o'r Bil yn cynnwys pŵer galluogi sylweddol i Lywodraeth y DU wneud rheoliadau adroddiadau canlyniadau amgylcheddol sy'n diwygio deddfwriaeth Cymru, gan gynnwys Deddfau gan y Senedd (yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol mewn amgylchiadau o'r fath), gyda gofyniad i ymgynghori â Gweinidogion Cymru dim ond os yw cymal 121 yn gymwys. Mae hyn yn gyfystyr â phŵer Harri'r Wythfed.

33. Yn ei llythyr ar 25 Tachwedd 2022, mae'r Gweinidog yn datgan y canlynol:

*"Mae Cymal 129 yn annerbyniol yn fy marn i, gan ei fod yn rhan o'r darpariaethau adroddiadau canlyniadau amgylcheddol yr wyf wedi rhoi fy marn iddynt uchod (gweler paragraff 9.1). Ni fu trafodaeth weinidogol am y darpariaethau hyn hyd yma. Nawr bod aildrefnu portffolios o fewn Llywodraeth y DU wedi setlo, byddaf yn ceisio cwrdd â'm cymheiriaid ar y cyfle cyntaf."*³⁵

Rhannau 3 a 5 o'r Bil: barn y Gweinidog ynghylch a ddylid darparu cydsyniad y Senedd

34. Mae'r Gweinidog yn datgan y canlynol ym mharagraff 77 yn y Memorandwm diwygiedig:

"Rwy'n argymhell na ddylid rhoi cydsyniad i'r cymalau hynny o Bennod 1 o Ran 3 sydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd (cymalau 75, 76, 77, 79, 80 ac 81) am eu bod yn ymwneud yn uniongyrchol â gweithredu adroddiadau canlyniadau'r amgylchedd y darperir ar eu cyfer yn Rhan 5. Ni allaf gefnogi'r trywydd yn Rhan 5 oherwydd y risg y gall rheoliadau sy'n effeithio ar Gymru danseilio'r hyn a wneir ar hyn o bryd yn y meysydd hyn, sydd wedi'u teilwra'n benodol i amgylchiadau ac anghenion Cymru."

35. Fodd bynnag, mae'r Gweinidog yn mynd ymlaen i ddweud y canlynol:

³⁴ Llythyr gan y Gweinidog Newid Hinsawdd, 25 Tachwedd, paragraff 18.1

³⁵ Llythyr gan y Gweinidog Newid Hinsawdd, 25 Tachwedd, paragraff 19.1

*"Fodd bynnag, o ran y cymalau a nodwyd ym mharagraff 77 nad wyf yn eu cefnogi ar hyn o bryd, rwy'n agored i gael fy mherswadio ynghylch diwygiadau i ddeddfwriaeth mewn meysydd a fyddai o fudd i Gymru ond a fyddai hefyd yn amddiffyn ein setliad datganoli."*³⁶

36. Mae'r Gweinidog yn argymhell bod y Senedd yn cydsynio i gymal 112 ar y sail ei fod yn ymwneud â "diwygiad cyfreithiol technegol", gan ychwanegu'r canlynol:

*"Er ei bod yn bosibl i'r Senedd wneud y newid hwn, mae natur dechnegol fân y newid yn golygu yn fy marn i bod y budd a ddaw o'r newid drwy'r Bil hwn yn drech na'r rhagdybiaeth polisi yn erbyn gwneud hynny."*³⁷

Rhan 10 o'r Bil

37. Bydd cymal 186 yn galluogi'r Ysgrifennydd Gwladol i gomisiynu adolygiadau cyfnodol o Sefydliad Brenhinol y Syrfewyr Siartredig (RICS), corff proffesiynol ar gyfer syrfewyr sy'n gweithredu gyda Siarter Frenhinol. Mae'r Gweinidog yn nodi yn y Memorandwm diwygiedig nad yw syrfewyr (a syrfewyr siartredig) yn broffesiynau a restrir fel mater a gedwir yn ôl ym mharagraff 140 o Atodlen 7A i Ddeddf 2006³⁸ ac yn datgan y canlynol:

*"Rwy'n cefnogi cynnwys cymal 186 gan ei fod o blaid gwella RICS, a fydd, yn ei dro, yn helpu i wella diogelwch adeiladau yng Nghymru. Mae gan RICS aelodau ar draws y DU (ac yn rhyngwladol) ac rwy'n ystyried bod cynnwys y ddarpariaeth adolygu hon yn y Bil hwn yn briodol o ystyried cylch gwaith y sefydliad."*³⁹

Rhan 11 o'r Bil

38. Mae cymal 191 yn darparu pŵer i wneud diwygiadau canlyniadol drwy reoliadau, gan gynnwys i ddeddfwriaeth sylfaenol (yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol mewn amgylchiadau o'r fath), gan ei wneud yn bŵer Harri'r Wythfed. Nid oes pŵer o'r fath i Weinidogion Cymru o dan y Bil.

³⁶ Y Memorandwm diwygiedig, paragraff 81

³⁷ Y Memorandwm diwygiedig, paragraff 79

³⁸ Y Memorandwm diwygiedig, paragraff 54

³⁹ Y Memorandwm diwygiedig, paragraff 75

39. Byddai'r pŵer yng nghymal 191 yn galluogi Llywodraeth y DU i ddiwygio unrhyw deddfwriaeth sy'n gymwys i Gymru, gan gynnwys Deddfau gan y Senedd, heb gyfeirio at Weinidogion Cymru na'r Senedd.

40. Datganodd y Gweinidog fod y ddarpariaeth o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd i'r graddau y mae'n ymwneud â'r darpariaethau o sylwedd sydd hefyd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd⁴⁰ ac mae'n argymhell na:

"... ddylid rhoi cydsyniad i gymal 191 oherwydd diffyg pwerau cyfatebol i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau mewn cysylltiad â materion datganoledig."⁴¹

Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol Llywodraeth Cymru

41. Ar 16 a 18 Tachwedd 2022, cyflwynodd Llywodraeth y DU welliannau i'w hystyried yn y Cyfnod Adrodd yn Nhŷ'r Cyffredin. Gosododd Llywodraeth Cymru Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 2) mewn cysylltiad â'r gwelliannau hyn ar 30 Tachwedd 2022.⁴²

Darpariaethau nad oes angen cydsyniad y Senedd ar eu cyfer mwyach

42. Mae'r Gweinidog yn nodi bod dau welliant gan Lywodraeth y DU yn effeithio ar ddarpariaethau a gynhwyswyd yn y Bil fel y'i cyflwynwyd a ddaeth o dan gymhwysedd deddfwriaethol y Senedd: cymal 96 a chymal 187. Canlyniad y gwelliannau hyn yw bod cymal 96, cymal dalfan yn wreiddiol, yn gymwys i Loegr yn unig a bod cymal 187 wedi'i ddileu o'r Bil. Fel y cyfryw, mae'r Gweinidog yn datgan nad yw'r broses cydsyniad deddfwriaethol o dan Reol Sefydlog 29 yn ymwneud â'r cymalau hyn mwyach.⁴³

Darpariaethau y mae angen cydsyniad y Senedd ar eu cyfer

43. Mae trydydd gwelliant gan Lywodraeth y DU—NC60 (Pleidleisiau strydoedd: ardoll seilwaith cymunedol)⁴⁴—yn gwneud darpariaeth sy'n dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd. Mae'r Gweinidog yn datgan y bydd y cymal newydd a gynigir gan y gwelliant yn

⁴⁰ Y Memorandwm diwygiedig, paragraff 56

⁴¹ Y Memorandwm diwygiedig, paragraff 80

⁴² Llywodraeth Cymru, [Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol \(Memorandwm Rhif 2\), y Bil Ffyniant Bro ac Adfywio](#), 30 Tachwedd 2022

⁴³ Memorandwm Rhif 2, paragraffau 13-16

⁴⁴ Y Bil Ffyniant Bro ac Adfywio (Saesneg yn unig), y Cyfnod Adrodd, rhif Gwelliant: NC60

gwneud diwygiadau technegol a chyfreithiol esboniadol i adran 211(10) (Rhan 11) o *Ddeddf Cynllunio 2008*⁴⁵ ac mae'n ychwanegu'r canlynol:

*"Rydym yn fodlon nad yw'r diwygiadau hyn yn ymwneud ag unrhyw un o'r materion a ddagedwir a nodir yn Atodlen 7A i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, ac nid yw unrhyw rai o'r cyfyngiadau a restrir yn Atodlen 7B i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 yn gymwys. Felly, mae'r diwygiadau hyn o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Senedd Cymru. Mae Llywodraeth y DU yn cytuno â'r farn honno, ac yn gofyn am gydsyniad Senedd Cymru. Rwy'n argymhell ei roi."*⁴⁶

Safbwynt Llywodraeth Cymru

44. Mae'r Gweinidog yn datgan y canlynol ym mharagraff 25 o Femorandwm Rhif 2:

"Rwy'n argymhell y dylid rhoi cydsyniad Senedd Cymru i Welliant NC60 Llywodraeth y DU, gan fod y gwelliant yn gwneud mân newidiadau technegol ac esboniadol yn unig. Lle gall Senedd Cymru wneud y newidiadau, mae eu natur dechnegol mân yn golygu yn fy marn i fod y budd a ddaw o wneud y newidiadau drwy'r Bil hwn yn drech na'r rhagdybiaeth polisi yn erbyn gwneud hynny."

2. Trafodaeth y Pwyllgor

45. Gwnaethom drafod y Memoranda yn ein cyfarfodydd ar 24 Hydref 2022, 12 Rhagfyr 2022 a 6 Chwefror 2023, a gwnaethom gytuno ar ein hadroddiad ar 13 Chwefror 2023.

Ein barn ni

Sylwadau cyffredinol

46. Rydym yn nodi sylwadau'r Gweinidog yn awgrymu diffyg ymgysylltu gan Lywodraeth y DU ar y Bil cyn ei gyflwyno, pwynt a bwysleisiodd y Gweinidog eto yn ei llythyr atom ar 25 Tachwedd 2023, er ei bod yn cydnabod bod rhywfaint o welliant wedi digwydd.

⁴⁵ Memorandwm Rhif 2, paragraff 18

⁴⁶ Memorandwm Rhif 2, paragraff 19

47. Rydym yn siomedig gyda'r diffyg ymgysylltu gan Lywodraeth y DU ar y Bil hwn fel yr awgrymwyd gan y Gweinidog. Mae hyn yn synnu o ystyried cyfnewid gohebiaeth rhyngom yn haf 2022 â'r Gwir Anrhydeddus Greg Clarke AS, yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ffyniant Bro, Tai a Chymunedau ar y pryd, a dynnodd sylw at bwysigrwydd ymgysylltu yn ystod y broses cydsyniad deddfwriaethol.⁴⁷

48. Rydym yn cytuno â'r Gweinidog bod hwn yn Fil cymhleth i'w ystyried o ran ei effaith ar ddatganoli. Felly, rydym yn cydymdeimlo â'r amser a gymerodd i lunio'r Memorandwm cychwynnol. Fodd bynnag, rydym yn siomedig o hyd bod angen ysgrifennu at y Gweinidog yn gofyn am atebion i 20 o gwestiynau ac i ofyn am Femorandwm diwygiedig. Fel y noda'r drafodaeth isod, nid yw rhai o'r atebion a gawsom yn esbonio materion mor llawn ag y byddem wedi hoffi, a'r canlyniad yw bod rhai materion yn parhau i fod yn aneglur.

49. Mae'r sefyllfa sydd wedi codi (fel rydym yn tynnu sylw ati ym mharagraffau 46 i 48) wedi lleihau'r amser sydd ar gael i ni wneud y gwaith craffu manwl sydd ei angen ar gyfer Memorandwm Bil nad yw'n hawdd ei ddeall o ystyried y ffordd gymhleth y mae'n effeithio ar y setliad datganoli.

50. Nodir 32 o gymalau yn y Memorandwm diwygiedig fel rhai sy'n "arbennig o berthnasol" i faterion sydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd. Nid yw'r Memorandwm diwygiedig yn nodi'r hyn a olygir gan y term "arbennig o berthnasol" ond rydym yn seilio ein hadroddiad ar y rhagdybiaeth bod y cymalau a nodir yn gymalau y mae Llywodraeth Cymru o'r farn eu bod naill ai'n:

- gwneud darpariaeth mewn perthynas â Chymru at unrhyw ddiben sydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd, neu
- yn addasu cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd.

51. O ran Rhan 1 o'r Bil ar genadaethau ffyniant bro, nodwn y gwahaniaeth mewn safbwyntiau rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU ynghylch a oes angen cydsyniad y Senedd ar gymalau 1 i 6.

52. Mae'r rhan fwyaf o'r Pwyllgor yn cytuno ag asesiad y Gweinidog ynglŷn â Rhan 1 o'r Bil. Felly, mae'n dilyn nad yw'r rhan fwyaf o'r Pwyllgor yn cytuno â barn Llywodraeth y DU (a roddwyd i ni gan y Gweinidog) nad oes angen cydsyniad y Senedd cyn i Senedd y DU ddeddfu i

⁴⁷ [Llythyr at yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ffyniant Bro, Tai a Chymunedau](#), 20 Gorffennaf 2022; [Llythyr gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ffyniant Bro, Tai a Chymunedau](#), 30 Awst 2022

osod dyletswyddau ar Weinidogion Llywodraeth y DU i sefydlu cenadaethau ffyniant bro ar gyfer y DU gyfan a, thrwy oblygiad, ar gyfer Cymru.

53. Mae mwyafrif o'r Pwyllgor o'r farn y gallai'r dull sy'n cael ei gynnig gan Lywodraeth y DU bylu'r ffiniau datganoli, gan achosi dryswch diangen i'r cyhoedd. Gallai hefyd arwain at fabwysiadu polisiau mewn meysydd datganoledig gan lywodraethau gwahanol sy'n gwrthdaro, a'r canlyniad yw bod adnoddau'n cael eu defnyddio'n aneffeithlon ac ar gyfer blaenoriaethau sy'n anghyson â'i gilydd. Yn hyn o beth, rydym yn nodi sylwadau'r Gweinidog yn tynnu sylw at y ffaith bod *Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015* eisoes yn darparu ar gyfer rhai o'r darpariaethau sy'n ymddangos yng nghymalau 1 i 6 o'r Bil.

Casgliad 1. Mae'r rhan fwyaf o'r Pwyllgor yn cytuno â'r Gweinidog bod cymalau 1 i 6 yn Rhan 1 o'r Bil yn dod o fewn diben sydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd, fel y'i disgrifir yn Rheolau Sefydlog 29, a bod angen cydsyniad y Senedd o ganlyniad.

Casgliad 2. Rydym yn cytuno ag asesiad y Gweinidog bod cymalau 75 i 77, 79 i 81, 112, 116 i 130, 186 a 191 yn y Bil (fel y'i cyflwynwyd) yn dod o fewn diben sydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd, fel y disgrifir yn Rheol Sefydlog 29, a bod angen cydsyniad y Senedd o ganlyniad.

Casgliad 3. Rydym yn cytuno ag asesiad y Gweinidog bod gwelliant NC60 Llywodraeth y DU (Pleidleisiau strydoedd: ardoll seilwaith cymunedol) yn dod o fewn diben sydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd, fel y'i disgrifir yn Rheol Sefydlog 29, a bod angen cydsyniad y Senedd o ganlyniad.

54. Rydym yn nodi bod paragraff 59 o'r Memorandwm diwygiedig yn nodi darpariaethau yn y Bil sy'n gymwys yng Nghymru, ond dim ond i ddiwygio deddfwriaeth at ddiben ailddatgan y sefyllfa bresennol yng Nghymru. Ymhellach, rydym yn nodi bod Llywodraeth y DU o'r farn bod angen cydsyniad y Senedd ar gyfer y darpariaethau hyn ac rydym yn cytuno â'r farn honno. Fodd bynnag, nid yw'r Memorandwm diwygiedig yn datgan a yw Llywodraeth Cymru yn fodlon bod y darpariaethau hyn yn cael eu cynnwys yn y Bil hwn, ac nid yw ychwaith yn gwneud argymhelliad ynghylch a ddylai'r Senedd gydsynio i'r darpariaethau hyn.

Argymhelliad 1. Dylai'r Gweinidog gadarnhau a oes angen cydsyniad y Senedd ar gyfer y cymalau a nodwyd ym mharagraff 59 o'r Memorandwm diwygiedig ac, os nad oes ei angen, pam y mae gan Lywodraeth Cymru farn wahanol i Lywodraeth y DU.

Rhannau 3 a 5 o'r Bil

- 55.** Drwy gwestiynau 6, 7, 12 a 13 o'n llythyr ar 25 Tachwedd 2022, gwnaethom geisio dealltwriaeth well a mwy diffiniol o sut y gallai'r Ysgrifennydd Gwladol weithredu mewn meysydd datganoledig o ganlyniad i ddarpariaethau yn Rhannau 3 a 5 o'r Bil.
- 56.** Yn ein barn ni, nid yw'r atebion gan y Gweinidog yn darparu'r manylion ar y lefel sydd ei hangen i asesu effaith y Bil mewn meysydd datganoledig. Fel y cyfryw, heb ragor o eglurhad, byddai'n anodd i'r Senedd benderfynu beth y byddai effaith y darpariaethau y ceisir cydsyniad ar eu cyfer.
- 57.** Rydym yn pryderu na all y Gweinidog "gadarnhau pwy, yng Nghymru, y gellid ei ystyried yn 'awdurdod cynllunio perthnasol' at ddibenion" Pennod 1 o Ran 3 o'r Bil (gweler paragraff 25 uchod) ac nad yw'r Gweinidog wedi darparu rhagor o ddiweddariadau ar y pwynt hwn.⁴⁸
- 58.** Yn ogystal, rydym yn ansicr ynghylch ystyr cyfeiriad y Gweinidog at weithio "gyda Llywodraeth y DU i sicrhau bod yr holl ddeddfwriaeth berthnasol i Gymru yn unig hefyd yn cael ei chynnwys" (gweler paragraff 27 uchod). Yn benodol, nid yw'n glir a yw'r Gweinidog yn ceisio cynnwys yr holl "ddeddfwriaeth berthnasol i Gymru yn unig" yng nghymal 130 o'r Bil ac, os felly, beth yw'r rheswm dros geisio'r gwelliannau hynny a goblygiadau ymarferol y newidiadau hynny.
- 59.** Byddem hefyd yn croesawu eglurhad gan y Gweinidog a yw wedi gwneud sylwadau i Lywodraeth y DU ar hepgoriad arfaethedig adran 71A o *Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990* gan gymal 128(2)⁴⁹ o ystyried ei fod yn cynnwys pŵer gweithredol presennol Gweinidogion Cymru i wneud darpariaeth mewn cysylltiad ag ystyried effeithiau amgylcheddol tebygol datblygiad arfaethedig.
- 60.** Rydym yn nodi bod y Gweinidog hefyd wedi cydnabod ei bod yn "i gael [ei ph]erswadio ynghylch diwygiadau i ddeddfwriaeth mewn meysydd a fyddai o fudd i Gymru ond a fyddai hefyd yn amddiffyn ein setliad datganoli." O ystyried cydnabyddiaeth y Gweinidog y gellid ymdrin â rhai o'r materion hyn mewn Deddfau gan y Senedd, nid ydym yn glir o hyd pam y mae'n mabwysiadu'r dull hwn, yn hytrach na gofyn i'r darpariaethau perthnasol fod yn gyfyngedig i Loegr yn unig.
- 61.** Mae'r pwynt hwn yn arbennig o bwysig oherwydd y byddai unrhyw ddiwygiad i'r Bil i ddarparu pwerau gweithredol i Weinidogion Cymru yn digwydd ar ddiwedd y broses ddeddfwriaethol yn Senedd y DU (mae'r Bil yn y Cyfnod Pwyllgor yn yr ail Ddê), felly mae'n

⁴⁸ Llythyr gan y Gweinidog Newid Hinsawdd, 25 Tachwedd 2022, paragraff 12.4

⁴⁹ Cyfeirir ato fel cymal 130(2) ym mharagraff 62 o'r Memorandwm diwygiedig

debygol o gael ychydig iawn o waith craffu drwy'r broses cydsyniad deddfwriaethol, sydd ei hun yn gyfyngedig fel modd i bwyllgorau'r Senedd a'r Senedd ddylanwadu ar ddeddfwriaeth yn Senedd y DU.

62. Yn ein barn ni, fel mater o egwyddor, byddai buddion posibl i Gymru ar ddarpariaethau data cynllunio ac adroddiadau canlyniadau amgylcheddol yn cael eu gwireddu orau drwy Fil Llywodraeth Cymru sy'n ddarostyngedig i waith craffu llawn gan y Senedd, yn hytrach na negodiadau rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU a chyflwyno diwygiadau Llywodraeth y DU yn y cyfnodau diweddarach yn y broses ddeddfwriaethol yn Senedd y DU.

63. Rydym yn nodi pryderon y Gweinidog ynghylch cymalau 80, 121 a 129 o'r Bil ac yn eu rhannu. Yn benodol, rydym yn pryderu bod cymal 129 yn caniatáu diwygio Deddf neu Fesur gan Senedd Cymru, heb rôl i'r Senedd. Nid ydym o'r farn bod hyn yn dderbyniol. Dyma farn y mwyafrif o'r Pwyllgor.

64. Rydym yn nodi sylwadau'r Gweinidog ynghylch cymal 112 yn y Memorandwm diwygiedig a gwelliant NC60 (Pleidleisiau strydoedd: ardoll seilwaith cymunedol) sy'n ymwneud â materion cynllunio.

65. Ar y cyfan, mae darlun cymhleth a dryslyd wedi dod i'r amlwg o'r Memoranda a'r ohebiaeth Weinidogol mewn perthynas ag effaith y Bil (fel y'i drafftwyd) ar Gymru a sut y gellid diwygio'r Bil i dawelu pryderon Llywodraeth Cymru.

Argymhelliad 2. Dylai'r Gweinidog esbonio pam y mae'n ceisio diwygiadau i'r Bil i geisio pwerau gweithredol i Weinidogion Cymru mewn perthynas â chynllunio darpariaethau data ac adroddiadau canlyniadau amgylcheddol, yn hytrach na negodi bod y darpariaethau hynny'n gymwys i Loegr yn unig.

Argymhelliad 3. Dylai'r Gweinidog egluro a fyddai'n bosibl i Lywodraeth Cymru gyflwyno ei Bil ei hun sy'n cynnwys cynllunio darpariaethau data a/neu adroddiadau canlyniadau amgylcheddol ac, os na fyddai'n bosibl, beth yw'r rhwystrau i ddull o'r fath.

Argymhelliad 4. Dylai'r Gweinidog ddarparu diweddariad ynghylch pwy, yng Nghymru, y mae Llywodraeth Cymru yn ystyried y gallai fod yn 'awdurdod cynllunio perthnasol' at ddibenion Pennod 1 o Ran 3 o'r Bil.

Argymhelliad 5. Dylai'r Gweinidog egluro beth a olygir gan y frawddeg "Byddwn yn gweithio gyda Llywodraeth y DU i sicrhau bod yr holl ddeddfwriaeth berthnasol i Gymru yn unig hefyd yn cael ei chynnwys" ym mharagraff 13.1 o'i llythyr ar 25 Tachwedd 2022. Wrth wneud hynny, dylai

esbonio effaith ymarferol y newid mae'n ymddangos y mae'n ei geisio i gymal 130 o'r Bil (fel y'i cyflwynwyd).

Argymhelliad 6. Dylai'r Gweinidog egluro a yw wedi ceisio gwrthdroi'r ddarpariaeth yng nghymal 128(2) (fel y'i cyflwynwyd) yn hepgor adran 71A o *Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref* 1990, sy'n cynnwys pŵer gweithredol presennol Gweinidogion Cymru i wneud darpariaeth mewn cysylltiad ag ystyried effeithiau amgylcheddol tebygol datblygiad arfaethedig. Os nad yw'n gwneud hynny, dylai'r Gweinidog esbonio'r rhesymau pam.

Argymhelliad 7. Dylai'r Gweinidog ddatgan a fydd cymal 112 (fel y'i cyflwynwyd) a gwelliant NC60 (Pleidleisiau strydoedd: ardoll seilwaith cymunedol) yn cael effaith ar waith drafftio'r Bil Cydgrynhoi ar gyfraith cynllunio yr ydym yn ymwybodol bod Llywodraeth Cymru yn paratoi i'w chyflwyno i'r Senedd.

Rhannau 10 ac 11 o'r Bil

66. Rydym yn nodi sylwadau'r Gweinidog ar gymal 186 o'r Bil.

67. Rydym yn nodi pryderon y Gweinidog ynghylch cymal 191 o'r Bil ac yn eu rhannu. Rydym yn pryderu ei fod yn caniatáu diwygio Deddf neu Fesur gan Senedd Cymru, heb rôl i'r Senedd. Nid ydym o'r farn bod hyn yn dderbyniol. Dyma farn y mwyafrif o'r Pwyllgor.

Diweddariad

Argymhelliad 8. Dylai'r Gweinidog roi diweddariad i'r Pwyllgor ynghylch ei negodiadau â Llywodraeth y DU ynghylch holl ddarpariaethau'r Bil y mae'n argymhell gwrthod cydsyniad ar eu cyfer.

Argymhelliad 9. Dylai'r Gweinidog ymateb i'r holl argymhellion o fewn 14 diwrnod i osod yr adroddiad hwn.